**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Russell George AC
Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau

19 Mehefin 2018

Annwyl Russell

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai am waith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar amaethyddiaeth fanwl.

Rhaid i'r diwydiant fabwysiadu amaethyddiaeth fanwl er mwyn gwneud ei hun yn gryfach a mwy proffidiol, yn enwedig a ninnau ar fin gadael yr UE. Mae'n bwysig serch hynny ein bod yn deall bod ffermio manwl yn golygu mwy na pheiriannau yn unig. Yn enwedig i ffermwyr da byw, mae casglu a defnyddio data a defnyddio technolegau bridio blaengar lawn cyn bwysiced os nad yn bwysicach na'r peiriannau y cawsoch glywed amdanyn nhw yn eich sesiwn tystiolaeth.

O ran peiriannau, roedd yr Athro Blackmore yn ei enghreifftiau yn cyfeirio at dargedu chwyn sy'n tyfu mewn cnydau uwch eu gwerth fel garddwriaeth ac ydau. Rwy'n gwbl gefnogol i'r camau technolegol hyn yn y sectorau hynny. Ond ar hyn o bryd, maen nhw bell o gyrraedd ffermwyr porfa o ran eu cost a hefyd o ran yr elw y daw'r technolegau hyn i systemau pori.

Mae enghreifftiau Mr Llewellyn ar y llaw arall, o dargedu maethynnau yn cael eu mabwysiadu ar lawer o ffermydd Cymru eisoes. Mae'r Grant Busnes i Ffermydd, sy'n cael ei ariannu'n rhannol trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, eisoes yn cefnogi llawer o'r technolegau hyn ac rwyf wedi helpu nifer o ffermydd i brynu technoleg GPS iddyn nhw allu targedu'u gwrtaith a'u chwynladdwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r diwydiant godro wedi bod yn barod iawn i arloesi a mabwysiadu technoleg newydd trwy wella geneteg, mwy o ddefnydd o ddata yn ogystal â godro â robotiaid. Mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, sydd hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, wedi rhoi llawer o help i ffermwyr fabwysiadu technolegau ffermio manwl er mwyn cynyddu cynhyrchiant.

**Rhwystrau**

Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i helpu ffermwyr i fabwysiadu technolegau ffermio manwl ac mae llawer o ffermwyr eisoes wedi elwa ar y gefnogaeth honno. Byddaf yn adolygu'r gefnogaeth rydym yn ei chynnig yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn para'n berthnasol i'r diwydiant. Ond gan fod yn rhaid cadw at y rheoliadau Ewropeaidd - dydyn ni ddim wedi gadael yr UE eto - rhaid i ffermwyr roi 60% o'u harian eu hunain mewn unrhyw fuddsoddiad cyfalaf.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i wella'r cyswllt band eang a ffonau symudol ledled Cymru a bydd hyn yn helpu i gefnogi amaethyddiaeth fanwl. Mae prosiect Cyflymu Cymru wedi cysylltu dros 684,000 o gartrefi a busnesau ledled Cymru - a busnesau ffermio yn eu plith - â band eang cyflym iawn. Ynghyd â'r hyn sy'n cael ei ddarparu'n fasnachol, mae 94 y cant o safleoedd bellach wedi'u cysylltu â band eang cyflym iawn. Mae tendr wrthi'n cael ei baratoi ar gontract i estyn band eang hyd yn oed ymhellach.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer dyfeisiau symudol ar y cyd â'r diwydiant ffonau symudol a phartneriaid eraill gan gynnwys undebau ffermwyr a CLA Cymru. Mae'r cynllun yn ymdrin â'r naw pŵer sydd ar gael i Lywodraeth Cymru eu defnyddio i wella'r cyswllt symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bwriad y cynllun yw creu amgylchedd sy'n annog pobl i fuddsoddi yn y seilwaith symudol yng Nghymru, fel newid y drefn gynllunio ar gyfer codi mastiau ffôn. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau data (3G a 4G) ar gael trwy bob gweithredwr ar 70 y cant o dir Cymru. Dim ond 5 y cant o Gymru sydd heb wasanaeth gan unrhyw weithredwr.

**Cyfleoedd**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y sgiliau a'r arbenigeddau a geir mewn sefydliadau academaidd a busnesau yng Nghymru sy'n berthnasol i amaeth manwl. Un prosiect a ariannwyd yn ddiweddar yw GEOM (Geographical Data and Earth Observation Monitoring), partneriaeth rhwng Qinetiq a Phrifysgol Aberystwyth. Y sector ffermio yw un o'r prif farchnadoedd y mae'n ei dargedu. Bydd yn codi data daearyddol o loerennau a dronau ar gyfer gweithgareddau fel monitro'r amgylchedd a threialon cnydau.

Wrth ei ddatblygu, rhoddwyd adborth i noddwyr y prosiect i'w hannog i ehangu'u cynnig i gynnwys mwy o gefnogaeth i ffermio manwl ac mae'r prosiect bellach wedi ymrwymo i weithio â rhaglen Llywodraeth Cymru, Cyswllt Ffermio, i ddefnyddio'r trefniadau sy'n bod i roi help uniongyrchol i ffermwyr. Ni fydd GEOM yn gallu ymdrin â phob agwedd ar amaeth manwl ond bydd yn rhoi adnoddau ac arbenigeddau newydd fel sail ar gyfer datblygu gweithgarwch newydd.

Ar yr un pryd, mae Crwsibl Cymru (o dan arweiniad Prifysgol Abertawe ond ar gyfer Cymru gyfan) yn cynnal Archwiliad o Wyddoniaeth ac Arloesedd. Mae'n cael ei ariannu gan yr Adran Menter Busnes a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac yn defnyddio'r ymgynghorwyr allanol Technopolis. Bydd yr archwiliad yn ystyried pedair prif thema. Bwyd amaeth fydd un o'r rheini, gan chwilio am dystiolaeth o alluoedd a chyfleoedd yng Nghymru. Bydd holl brif Brifysgolion Cymru'n rhan o'r archwiliad a bydd yn rhoi llinell sylfaen ddibynadwy a chymharadwy inni ynghylch statws galluoedd Cymru o ran bwyd amaeth. Yn sgil ei gynnal, byddwn yn gallu nodi cyfleoedd ac unrhyw fylchau yng Nghymru ac yn gallu argymell camau pellach i ddatblygu'r sector.

**Ceisiadau am gymorth**
Mae Llywodraeth Cymru, trwy'r rhaglen Cyswllt Ffermio, yn cynnig amrywiaeth eang o help i ffermwyr ym maes amaeth manwl. Mae'n cynnig help i feincnodi, er mwyn i ffermwyr gael mwy o ddata am eu perfformiad ariannol a thechnegol. Mae hyfforddiant a chyngor technegol yn cael eu darparu am brisiau gostyngol ar bynciau sy'n gysylltiedig â ffermio manwl. Fel rhan o rwydwaith Cyswllt Ffermio o ffermydd arddangos, rydyn ni'n arddangos nifer o dechnolegau, prosesau ac arferion sy'n dangos manteision amaeth manwl mewn sefyllfaoedd go iawn. Rwyf wedi gofyn i Cyswllt Ffermio adolygu'i safleoedd arddangos, arloesi a ffocws i sicrhau eu bod yn dangos yr arferion ffermio mwyaf blaengar er mwyn ysbrydoli ffermwyr eraill i fabwysiadu'r technegau hyn.

Nid wyf wedi clywed unrhyw beth oddi wrth y diwydiant i ddweud bod rhesymau deddfwriaethol dros beidio â mabwysiadu rhai o'r technolegau hyn, ond byddaf yn dal ati i weithio'n glos â'r diwydiant i sicrhau fy mod yn eu helpu lle gallaf.

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd o hyd at £12,000 yn dal i fod ar gael i ffermwyr i wneud buddsoddiadau cymharol fach ar eu fferm. Ceir nifer o eitemau sy'n ymwneud â ffermio manwl ar y rhestr. Mae'r eitemau wedi'u henwi a'u costio er mwyn hwyluso'r broses ymgeisio am grant ond gan roi cymaint o hyblygrwydd â phosib i ffermwyr. Mae fy swyddogion yn dal i weithio'n glos â'r diwydiant i sicrhau bod yr eitemau hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'r sector amaeth er mwyn cynyddu cynhyrchiant.

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Gwyddoniaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu a darparu'r dechnoleg ar gyfer ffermio manwl ac rwy'n deall iddo drafod rhai o'r materion hyn â'r Pwyllgor ar 7 Mehefin. Wrth roi tystiolaeth, siaradodd am yr adolygiad o Arloesedd Digidol y mae'r Athro Phil Brown wrthi'n ei gynnal. Wrth i'r gwaith hwnnw fynd yn ei flaen, byddaf yn awyddus i wneud yn siŵr ei fod yn ystyried anghenion y diwydiant amaeth.

**Parodrwydd Llywodraeth Cymru**
O ran y galw am strategaeth ar gyfer amaeth manw, rwy'n credu y byddai'n well ystyried amaeth manwl o fewn cyfrifoldebau fy mhortffolio i yng nghyd-destun agenda foderneiddio lawer ehangach. Rwy'n gweithi'n glos â'r diwydiant i sicrhau bod ein polisïau, y fframwaith rheoleiddio a'n mecanweithiau cymorth i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gennym sector amaeth ffyniannus a chryf yng Nghymru.

Mae amaeth manwl yn rhoi cyfle i ffermwyr ddefnyddio technoleg ac arloesedd i gynhyrchu mwy a chryfhau'u busnesau. Mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd ym mhob rhan o'r diwydiant i wneud yn siŵr bod busnesau'n gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs